**Cyngor Cymuned Ganllwyd**

**Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Rhagfyr 13eg 2017.**

**Presennol.**

Cyng D.Morris,Cyng S.Roberts,Cyng G.Jones, Cyng G.Hughes, Cyng C.Dixon

**Ymddiheuriadau**

Cyng P.Jenkins. Cyng Edwards, Cyng G.Hughes a Cyng C.Edwards

**Datgan diddordeb.**

Neb

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 8fed Tachwedd 2017**

Cyng Morris yn cynnig fod y cofnodion yn gywir Cyng Roberts yn eilio.

**Materion yn codi:**

**NP5/60/154** –Derbyniwyd gwybodaeth gan y Parc fod y cwmni E.E wedi rhoi rhai arwyddion mewn ambell i leoliad o gwmpas y pentref yn hysbysu'r cais yma.

Nid yw'r cyngor yn hapus hefo lefel o hysbyu gan gwmni E.E mewn perthynas ar mater a gobeithiwyd bydd gwell ymdrech yn y dyfodol.

Cyng Jenkins ddim yn bresennol i rhoi unrhyw wybodaeth ynglyn a'r cwestiwn sef ble mae'r arian am gael rhoi y mast yn y lleoliad yma yn mynd.

Clerc i gysylltu hefo Cyng Jenkins ynglyn a'r mater yma.

**Biniau sbwriel yr ardal** – Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y byddent yn gosod bin amal bwrpas yn lle'r bin bresennol gyferbyn a Ty'n y Groes.

Bydd y bin sbwriel ym maes parcio'r pentref (ger y toiled) yn cael ei gwagio yn fwy aml yn y dyfodol.

**A470 Ganllwyd-** Derbyniwyd gwybodaeth gan Mr Morris (Adran Priffyrdd) yn egluro ers i'r ysgol gau fod rhaid newid yr hen arwyddion digidol yn y pentref i'r arwyddion presennol.

**Nid oes cynlluniau i newid yr arwyddion ymhellach.**

Bydd swyddogion yr adran priffyrdd yn arolygu'r coed o gwmpas y safle bws i wneud yn siwr nad ydynt yn creu difrod i'r adeilad.

**Gwefan y Cyngor-** Mae Mr Ap Gomer wedi cwblhau gwaith sefydlu'r Wefan a mae'r safle yn awr yn fyw.

Bydd y cyngor yn trafod sut i lawnsio'r safle yng nghyfarfod Ionawr 2018.

**Cynhorydd Sir—**Nid yr oedd y Cynghorwr yn bresennol.

Clerc i gysylltu a Cyng Jenkins ynglyn sefyllfa yn ymwneud a biniau halen yr ardal.

**Materion ariannol.**

**Praesept 2018--2019**

Ar ol trafodaeth penderfynodd y cyngor geisio am breacept o £3,000 am y flwyddyn ariannol nesaf.

Gwnaeth y cyngor eu penderfyniad yn seiliedig ar yr ystyriaethau cyllidebol canlynol:

**<u>Cyllideb arfaethedig. 2018-19.</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Yn y banc 01/04/2018 (tua) | £4750.00 | |
| Llai sieciau heb glirio | £ 0 | |
| Incwm: | | |
| Precept | £3000 | |
| Ad-daliad cynnal& chadw llwybrau | £ 500 | |
| Ad daliad TAW | £ 40 | |
| Cyfanswm | | £8270.00 |

| | | |
|---|---|---|
| Taliadau | Cynnal Llwybrau Cyhoeddus | £ 750 |
| | Biniau Halen | £ 800 |
| | Llogi'r Neuadd | £ 200 |
| | Cyflog Clerc | £1200 |
| | Ysiwriant | £ 525 |
| | Rhoddion | £ 600 |
| | Toiled Ganllwyd | £ 275 |
| | Archwilydd | £ 525 |
| | (Eitemau amrywiol) | £ 850 |

Cyfanswm £5775.00

Gweddill ar ddiwedd y flwyddyn £2495.00

**Cyson banc Tachwedd 2017**

**Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: £6171.57**

**Derbyniwyd:**

**Ad daliad cynnal a chadw llwybrau £577.10**

| | | |
|---|---|---|
| **Taliadau:** | **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| | **Costau etholiad lleol** | **£128.00** |
| | **Awdit 2016/17** | **£201.00** |

**Yn y banc diwedd mis £6319.67**

Cytunodd y cyngor fod y cyfrifon misol yn gywir.

Rheoleiddiwr pensiwn- Mae'r cyngor wedi dosbarthu llythyr i'r clerc (yr unig cyflogai) yn ymwneud a newidiau yn y gyfraith taliadau pensiwn.

Copi o'r llythyr wedi ei gadw yn y ffeil ariannol

Mae Llywodraeth Cymru wedi dosbarthu gwybodaeth ynglyn ag arian gall y cyngor wario o dan rheolau Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sef rhoddion i grwpiau cymdeithasol a.y.b.

Bydd y cyngor yn cael gwario £7.86 y pen (etholwr)

**Llythyrau & E-byst**

Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu yn darparu gwybodaeth am yr heriau (yn arbennig heriau ariannol) sy'n wynebu'r heddlu ar hyn or bryd ac yn y blynyddoedd i ddod.

Un Llais Cymru—manylion agenda a chofnodion cyfarfod Tachwedd/Medi 2017

**Unrhyw fater arall.**

Mae'r cyngor wedi derbyn gwybodaeth fod arwyddion answyddogol wedi cael ei gosod yn nodi fod y llwybr cyhoeddus yn ardal Bont Dolgoed wedi cau.

Clerc i gysylltu hefo Liz Haynes ynglyn a'r mater yma